SNAP Cymru

Ebrill 2018 – Mawrth 2019

The Queen's Diamond Jubilee Volunteering Award 2012

SQM

Helplines Partnership MEMBER

Investing in Volunteers

Agored Cymru

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Cynnwys

1. **Cyflwyniad** **3**

2. **Trosolwg o SNAP Cymru** **5**
   Trosolwg o bwrpas a gwaith SNAP Cymru.

3. **Manylion ein Gweithgareddau Ebrill 2018 - Mawrth 2019** **12**
   Manylion gweithgareddau SNAP Cymru yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019.

4. **Cynlluniau ar gyfer y Dyfodol** **21**
   Datblygiad arfaethedig SNAP Cymru yn ystod y 3 blynedd nesaf.

5. **Rhestr Termau** **24**

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys trosolwg o waith SNAP Cymru, manylion gweithgareddau SNAP Cymru yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019 a chynlluniau'r elusen ar gyfer y dyfodol.

Mae elusen SNAP Cymru yn darparu cyngor annibynnol, arbenigol, addysgol i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol ledled Cymru. Rydym wedi bod yn darparu gwybodaeth, cyngor, cefnogaeth ac eiriolaeth o safon uchel i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol yng Nghymru ers 1986. Ni yw'r unig sefydliad arbenigol â sicrwydd ansawdd annibynnol yng Nghymru sy'n darparu cymorth arbenigol ag ystod o faterion addysgol, gan gynnwys asesiadau, cynlluniau datblygu unigol, datganiadau anghenion addysgol arbennig, bwlio, presenoldeb a darpariaeth ysgolion, gwaharddiadau, iechyd, darpariaeth gofal cymdeithasol a gwahaniaethu mewn addysg. Bob blwyddyn mae miloedd o deuluoedd a channoedd o weithwyr proffesiynol yn dod at SNAP Cymru i gael help i ddatrys eu problemau. Mae SNAP Cymru yn gweithio mewn ffordd gyfannol gyda theuluoedd a gweithwyr proffesiynol gan ddefnyddio model partneriaeth a grymuso, gan helpu i ddatblygu gwytnwch mewn teuluoedd.

Rydym yn bwysig i gymunedau yng Nghymru oherwydd ein dealltwriaeth gredadwy o bolisïau, prosesau ac anghenion lleol. Rydym yn teilwra gwasanaethau lleol, yn dylanwadu ar gynllunio ac ar phobl sy'n gwneud penderfyniadau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Drwy waith ein staff medrus a gwirfoddolwyr rydym yn gwneud gwahaniaeth i iechyd a lles teuluoedd yng Nghymru.

Rydym wedi cyflenwi contractau ar gyfer gwybodaeth a chyngor ar faterion yn ymwneud ag addysg; gwahaniaethu ar sail anabledd, partneriaethau rhieni annibynnol, datrys anghytundeb, cyfryngu, gwaith allweddol a gwaith cefnogaeth gynnar ym mhob Awdurdod Lleol yng Nghymru.

Y llynedd, bu SNAP Cymru yn gweithio'n uniongyrchol â 5,263 o deuluoedd i geisio datrys dros 10,845 o broblemau. Cafodd miloedd yn rhagor wybodaeth o'n gwefan a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol. Cyrhaeddodd ein tudalen Facebook 1,116,000 o ddefnyddwyr unigryw, a chafodd ein gwefan snapcymru.org dros 91,000 o ymweliadau. Mae SNAP Cymru hefyd wedi dod yn adnodd i weithwyr proffesiynol, gan gynnwys staff ysgolion, staff gwasanaethau cymdeithasol a gweithwyr iechyd proffesiynol a'r trydydd sector sy'n cyfeirio teuluoedd a phobl ifanc at SNAP Cymru ac yn argymell eu bod yn cysylltu â ni.

Roedd y prif faterion yn gysylltiedig â theuluoedd yn ymwneud â'r help y mae plant yn ei gael mewn ysgolion, asesiadau statudol a chael mynediad at wasanaethau addysg, dod o hyd i'r ysgol iawn a gwahaniaethu. Ymhlith y

The Queen's Diamond Jubilee Volunteering Award 2012
SQM
Helplines Partnership MEMBER
Investing in Volunteers
Agored Cymru
Llywodraeth Cymru Welsh Government

materion cyffredin eraill roedd problemau cyfathrebu, mynediad at wasanaethau iechyd a llai o oriau mewn ysgolion. Roedd gan 98% o'r teuluoedd y buom yn gweithio â hwy blentyn ag anghenion dysgu ychwanegol. Roedd gan y rhan fwyaf o'r teuluoedd y buom yn gweithio â hwy, 77%, blentyn â diagnosis meddygol neu anabledd. Dywedodd 58% ohonynt wrthym eu bod yn derbyn cymorth gan y gwasanaeth iechyd.

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn cael ei rhoi ar waith yn raddol ar hyn o bryd ynghyd â diwygiadau trawsnewid arwyddocaol, gweithgareddau datblygu gweithlu a chwricwlwm newydd mewn cyfnod o argyfwng cyllid ar draws pob gwasanaeth. Mae hyn yn achosi llawer iawn o ansicrwydd i'r holl randdeiliaid. Mae rhieni'n benodol yn bryderus iawn ynglŷn â gallu ysgolion a cholegau i ddiwallu anghenion eu plant.

Mae effaith ehangach yr hyn rydym yn ei gyflawni drwy ddarparu cefnogaeth a datrys problemau yr un mor bwysig â'r cyngor ei hun. Os gadewir problemau heb eu datrys, maent yn effeithio nid yn unig ar deuluoedd, ond hefyd ar y gymuned lle maent yn byw. Daeth y rhan fwyaf o'r teuluoedd atom ni pan oeddent angen gweithredu ar fyrder.. Mae gweithio gyda theuluoedd er mwyn datrys problemau o fudd mawr i gymdeithas. Dywedodd bron bob un o'r teuluoedd y buom yn eu helpu bod eu problem yn cael effaith negyddol arnyn nhw ac ar fywydau eu plant, a hynny am flynyddoedd weithiau. Dywedodd llawer nad oeddent yn teimlo'n ddigon hyderus i gymryd camau i geisio datrys eu problem cyn iddynt gael cyngor. Roedd 97% o'r teuluoedd a oedd wedi cael cyngor neu ymyriad yn fodlon â'r gwasanaeth a ddarparwyd gan SNAP Cymru ac roedd 87% o'r teuluoedd yn dweud eu bod yn teimlo'n fwy hyderus i siarad yn effeithiol ar ran eu plentyn. Roedd 85% yn dweud bod eu hiechyd a'u lles wedi gwella.

Dewisodd Llyfrgell Genedlaethol Cymru www.snapcymru.org i fod yn rhan o Archif Gwe'r Deyrnas Unedig, ac mae bellach yn rhan o'u casgliad parhaol.

Mae ansawdd SNAP Cymru yn cael ei sicrhau'n annibynnol, a dyfarnwyd Nod Ansawdd Arbenigol (SQM) yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol i ni unwaith eto yn 2018. Mae'r Nod Ansawdd gennym er 2009.

Mae rhagor o wybodaeth a manylion am waith SNAP Cymru ar gael gan ein Prif Weithredwr, Denise Inger. Gallwch gysylltu â hi drwy ebost denise.inger@snapcymru.org neu drwy ein gwefan www.snapcymru.org .

2. Trosolwg o SNAP Cymru

Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn cynnwys trosolwg o SNAP Cymru, ei bwrpas a'r ffordd rydym yn gweithio.

Mae SNAP Cymru yn elusen sydd â'i gwreiddiau mewn cymunedau lleol ledled Cymru. Mae wedi bod yn gweithio gyda theuluoedd ers dros 30 mlynedd, ar faterion yn ymwneud ag anabledd, anghenion addysgol arbennig, gwahaniaethu ac anghenion dysgu ychwanegol. Mae gan SNAP Cymru wybodaeth leol sylweddol am adnoddau, polisi ac ymarfer, deddfwriaeth a pholisi cenedlaethol.

Un o'n cryfderau yw ein dull gweithredu cyfannol sy'n cynnwys pawb. Gallwn gynrychioli grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli ac nad yw eu llais bob amser yn cael ei glywed. Mae hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc sydd heb gael diagnosis a'r rhai sydd ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

Gall staff a gwirfoddolwyr hyblyg SNAP Cymru gydweithio ac adnabod ac ymateb yn gyflym i anghenion a thueddiadau cyfredol a rhai fydd yn dod i'r amlwg yn y dyfodol. Rydym yn falch o'r gwerth ychwanegol rydym yn ei sicrhau drwy ein gwirfoddolwyr profiadol ac arbenigol sy'n gwneud cyfraniad ychwanegol sy'n gyfwerth â 72% o amser ein gweithlu gwaith achos cyflogedig. Mae llawer rhagor o wirfoddolwyr yn darparu cefnogaeth yn ein digwyddiadau drwy gydol y flwyddyn.

2.1 Amcanion elusennol

Amcanion elusennol SNAP Cymru:

- Darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth, er mwyn galluogi plant a phobl ifanc a'u rhieni neu warcheidwaid i gyfranogi'n llawn ac ar sail gyfartal yn eu cymdeithas.
- Helpu rhieni a gwarcheidwaid i ddeall y ddeddfwriaeth berthnasol, a thrwy hyn helpu eu plant i gyfrannu a chymryd rhan mewn dewisiadau sy'n ymwneud â'u bywydau.
- Hwyluso partneriaeth rhwng pobl ifanc, rhieni a gweithwyr proffesiynol mewn penderfyniadau sy'n ymwneud ag addysg a chynhwysiant.

2.2 Datganiad o genhadaeth

Bydd SNAP Cymru yn grymuso teuluoedd (rhieni, gofalwyr, plant a phobl ifanc) er mwyn sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed ym meysydd Addysg, Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Bydd hefyd yn eu helpu i weithio mewn partneriaeth er mwyn dylanwadu ar bolisi ac ymarfer wrth gynllunio a darparu gwasanaethau yn lleol ac yn genedlaethol.

2.3 Budd cymdeithasol o fuddsoddi

Mae dadansoddiad annibynnol gan Wavehill Consultancy o'r budd cymdeithasol sy'n deillio o fuddsoddi yn awgrymu bod pob £1 a fuddsoddir yng ngweithgareddau SNAP Cymru yn creu gwerth £20.61 o fudd cymdeithasol. Rydym yn falch o'r gwerth ychwanegol rydym yn ei sicrhau drwy ein gwirfoddolwyr profiadol ac arbenigol. Amcangyfrifwyd bod eu cyfraniad ychwanegol yn gyfwerth â 72% o amser ein gweithlu cyflogedig eleni. Rydym hefyd yn falch o'r cymorth cynyddol rydym wedi bod yn ei roi i gymunedau dros gyfnod o ddeng mlynedd ar hugainsy'n cynnwys gweithio gyda theuluoedd a hyfforddi rhieni a gwirfoddolwyr i weithio mewn partneriaeth.

2.4 Dull gweithio

Mae SNAP Cymru yn gweithio mewn ffordd gyfannol gyda theuluoedd a gweithwyr proffesiynol gan ddefnyddio model partneriaeth a grymuso, i helpu i ddatblygu gwytnwch teuluoedd. Mae ein gwasanaethau'n ceisio hwyluso ymgysylltiad a dulliau gweithio mewn partneriaeth rhwng yr holl randdeiliaid, gan gefnogi cydgynhyrchu a cheisio dod i gytundeb a datrys problemau yn gyflym ac mor gynnar ag sy'n bosibl lle mae anghytuno'n digwydd, er mwyn osgoi gwrthdaro.

Rydym wedi cyflawni contractau yn ymwneud â darparu gwybodaeth a chyngor ar faterion yn ymwneud ag addysg; gwahaniaethu ar sail anabledd, partneriaethau rhieni annibynnol, datrys anghytundeb, cyfryngu, gwaith allweddol a chefnogaeth gynnar mewn Awdurdodau Lleol ledled Cymru. Rydym wedi defnyddio ein model grymuso sy'n chwilio am atebion ac yn osgoi gwrthdaro, ac yn helpu i leihau straen a gorbryder i blant, teuluoedd a gweithwyr cymdeithasol. Credwn fod pobl ifanc a theuluoedd gwybodus a hyderus yn gallu ymgysylltu'n well â gweithwyr proffesiynol a'r gwasanaethau sydd ar gael i'w helpu i gymryd rhan yn y gwaith cynllunio a'r prosesau gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Rydym yn helpu i drafod a threfnu'r gwasanaethau sydd ar gael er mwyn sicrhau bod teuluoedd yn cael mynediad at gymorth priodol ar yr adeg iawn a thrwy hynny helpu plant a phobl ifanc i gyflawni eu potensial yn llawn.

Mae SNAP Cymru yn darparu gwasanaethau yn y Gymraeg a'r Saesneg drwy swyddfeydd rhanbarthol. Mae gennym Ganolfan Gymorth Genedlaethol, gwefan a phlatfformau cyfryngau cymdeithasol. Rydym hefyd yn darparu gwaith achos ac ymyriadau fel y bo'n briodol yn amodol ar angen a chyllid. Rydym yn datblygu ac yn darparu gwasanaethau sydd wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion y 'teulu cyfan' â phwyslais ar atal, amddiffyn a thynnu tensiwn o sefyllfaoedd er mwyn lleihau'r angen am gamau adfer. Y rhai sy'n cael budd o'n gwaith yw plant a

phobl ifanc, teuluoedd plant a phobl ifanc sydd ag anghenion ychwanegol, neu a allai fod ag anghenion ychwanegol, a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Mae gwasanaethau'n cael eu hymestyn i weithwyr proffesiynol a grwpiau cymunedol drwyymgynghori, ymchwilio, hyfforddiant ar bynciau amrywiol yn ymwneud â phlant a theuluoedd, addysg a datblygiad ac anabledd penodol.

Mae gennym bortffolio hyfforddiant eang sy'n gysylltiedig â'n meysydd pynciau arbenigol, gan gynnwys anghenion dysgu ychwanegol ym maes addysg a gweithio gyda gweithwyr proffesiynol, plant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae'r hyfforddiant rydym yn ei ddarparu yn cyfrannu tuag at ein model grymuso gan ei fod yn helpu i ddarparu gwybodaeth a grymuso'r rhai sy'n cymryd rhan drwy wella eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u cymwyseddau.

2.5 Gwirfoddoli

Un o nodweddion allweddol a hanfodol SNAP Cymru yw'r gwirfoddolwyr. Mae gwirfoddoli ffurfiol yn ychwanegu gwerth sylweddol i'n gweithgareddau. Mae'r gymhareb gwirfoddolwyr arbenigol i staff yn 72% o'r amser staff eleni. Rydym yn falch bod ein gwirfoddolwyr yn gwneud gwahaniaeth mewn cymunedau ledled Cymru.

Drwy ein rhaglen wirfoddoli rydym yn ceisio datblygu sgiliau, cymwyseddau ac arbenigedd pob gwirfoddolwr a gwneud defnydd effeithiol o'u rhodd fwyaf, sef amser a phrofiad. Mae ein gwirfoddolwyr yn dod o gefndiroedd amrywiol ac mae ganddynt sgiliau ac arbenigedd amrywiol. O ganlyniad, maent yn cyflawni llawer o wahanol rolau yn ein sefydliad er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'r hyn sydd ganddynt i'w gynnig. Mae ein gwirfoddolwyr yn cefnogi ym meysydd cynllunio strategol, rhoi cyngor uniongyrchol a gwaith achos, gweinyddu, y cyfryngau cymdeithasol a chodi arian.

Mae'r holl wirfoddolwyr yn cael anwythiad cynhwysfawr sy'n briodol i'w rôl. Mae hyn yn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'r ffordd y mae amcanion elusennol yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol. Disgwylir i wirfoddolwyr ymgymryd â dysgu pellach sy'n berthnasol i'w rôl, gan gynnwys hyfforddiant wedi'i achredu. Eleni, yn ogystal â'r modiwl cynefino, a modiwlau gwaith achos a chefnogi teuluoedd, mae'r gwirfoddolwyr wedi derbyn hyfforddiant ar waharddiadau, gwahaniaethu, cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth, y llinell gymorth, diogelu, datrys anghytundeb, Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ac ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â Chymru.

Rydym yn gwerthfawrogi arbenigedd sylweddol gweithwyr proffesiynol sy'n rhoi eu hamser ac rydym yn falch o gefnogi gwirfoddolwyr sy'n dod atom er mwyn cael sgiliau a phrofiad yn y gweithle gyda'r bwriad o symud ymlaen i gyflogaeth,

The Queen's Diamond Jubilee Volunteering Award 2012
SQM
Helplines Partnership MEMBER
Investing in Volunteers
Agored Cymru
Llywodraeth Cymru Welsh Government

addysg a hyfforddiant. Mae ein gwirfoddolwyr yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at ein gwaith codi arian. Rydym yn eu cefnogi drwy gynnig gweithgareddau gwirfoddoli o safon uchel, cefnogaeth, mentora, hyfforddiant wedi'i achredu, geirdaon a chanolwyr.

2.6 Cyfranogiad plant a phobl ifanc

Mae SNAP Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys mewn ffordd ystyrlon yn y penderfyniadau sy'n ymwneud â hwy a'u dyfodol ac rydym yn ceisio gwella a hybu ymgysylltiad a chyfranogiad llawn plant a phobl ifanc. Rydym yn sicrhau ein bod yn ymgorffori 'Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn' yn ein gwaith.

2.7 System reoli ganolog SNAP Cymru

Mae SNAP Cymru yn cynnal system cronfa ddata a gwybodaeth bwrpasol y credwn ei bod yn unigryw yng Nghymru. Mae ein system yn caniatáu i SNAP Cymru dracio achosion unigol a nodi patrymau a darparu adborth seiliedig ar dystiolaeth a gwybodaeth ar sail awdurdod lleol ac yn genedlaethol. Mae'r systemau gwybodaeth yn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliad GDPR.

Mae gwybodaeth a data SNAP Cymru, yn enwedig y 'data personol a sensitif a data'r categori arbennig' sy'n ymwneud â'n cleientiaid, a staff a gwirfoddolwyr yn cael eu casglu a'u storio mewn ffordd foesegol ac yn gyfreithlon. Wrth baratoi ar gyfer cyflwyno'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a ddaeth i rym yn 2018, rydym wedi sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a phobl allweddol yn ein sefydliad yn ymwybodol o'r gyfraith. Mae'r holl staff a gwirfoddolwyr wedi cael eu hyfforddi ac maent yn deall eu cyfrifoldebau i SNAP Cymru. Mae staff newydd a gwirfoddolwyr yn derbyn hyfforddiant cynefino a byddant i gyd yn cael hyfforddiant blynyddol.

Mae gennym brotocolau cyfrinachedd gwasanaeth sy'n cael eu harchwilio'n allanol gan y Gwasanaethau Cymorth Cyfreithiol yn unol â Safonau Ansawdd ar gyfer Rhoi Cyngor Arbenigol. Mae'r staff a'r gwirfoddolwyr yn arwyddo polisïau amrywiol yn ystod eu cyfnod cynefino, gan gynnwys Defnydd Derbyniol o Systemau TG, Cytundeb Mynediad at Systemau TG, Polisi Diogelu a Rheoli Gwybodaeth, Polisi Defnyddio'r Ffôn, Polisi Mynediad o Bell, Canllawiau ar Ddefnyddio Cyfryngau Cymdeithasol, Polisi Preifatrwydd a Pholisi Diogelu Data.

2.8 Datblygiad a dysgu proffesiynol staff a gwirfoddolwyr

Mae dysgu proffesiynol a phersonol yn cael ei werthfawrogi a'i gydnabod fel un o'r prif ffactorau sy'n cyfrannu tuag at ddatblygiad personol a phroffesiynol staff a gwirfoddolwyr a thrwy hynny'n gwella effeithiolrwydd y gwasanaethau sy'n cael

eu darparu gan SNAP Cymru. Mae gan staff a gwirfoddolwyr gyfrifoldeb i ymgymryd â dysgu personol a phroffesiynol parhaus sy'n datblygu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth i gefnogi'r nod hwn.

Mae dysgu proffesiynol a phersonol yn cyfeirio at bob cyfle i hyfforddi a datblygu, boed yn ffurfiol neu'n anffurfiol, boed yn unigol neu'n cael ei rannu, sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer sgwrs broffesiynol, rhyngweithio, ymarfer, adfyfyrio a dadansoddi. Gall dysgu proffesiynol ddigwydd wyneb yn wyneb, ar-lein neu drwy ddulliau eraill.

Mae hyfforddiant a gwasanaethau'n hygyrch ledled Cymru ar gyfer amrywiaeth eang o bynciau sy'n ymwneud â phlant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae staff SNAP Cymru yn cael eu hyfforddi yn unol â Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru, gan gynnwys Lefel 4 mewn Cyfryngu, er mwyn gallu datrys anghydfod yn anffurfiol ac yn ffurfiol.

2.9 Rheoli ansawdd

Mae'r sefydliad wedi cadw'r 'Nod Ansawdd Arbenigol ar gyfer Rhoi Cyngor Addysgol' sy'n cael ei archwilio'n allanol gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol. Mae'r statws Nod Ansawdd Arbenigol gennym ers 2009, ac rydym wedi cwblhau'r trydydd rownd archwilio. Mae'r sefydliad yn dal i ymgorffori rhaglenni a pholisïau safonau sy'n cefnogi gwella ansawdd yn barhaus drwy systemau rheoli perfformiad.

Rydym yn aelod o Rwydwaith Cyngor Cymru ac yn gweithredu fel system ffurfiol i gyfeirio pobl at ddarparwyr cyngor/eiriolaeth eraill. Mae SNAP Cymru yn cael ei archwilio'n rheolaidd er mwyn sicrhau ansawdd, cydymffurfiad a datblygiad.

Mae staff a gwirfoddolwyr wedi cymryd rhan yn grŵp cynghori a datblygu Llywodraeth Cymru ar gyfer Rheoliadau Safonau'r Gymraeg a ddaeth i rym ym Mehefin 2019. Rydym yn dal i adeiladu'n gwytnwch a gwella mynediad at wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ddarparu archwiliad blynyddol.

Mae uwch reolwyr wedi adolygu'n dulliau monitro a gwerthuso er mwyn darparu tystiolaeth a mesur effeithiolrwydd gweithgaredd. Mae'r gwaith hwn wedi'i seilio ac yn cael ei ddylanwadu gan wybodaeth am fesur canlyniad ac effaith i deuluoedd a gyflwynir i Awdurdodau Lleol. Mae'r gwerthusiad o wasanaethau'n gadarnhaol, ac mae'r effaith fesuredig ar deuluoedd a phobl ifanc yn sylweddol.

Mae SNAP Cymru yn gwerthfawrogi'r dysgu sefydliadol a systemig sy'n dod o sylwadau cadarnhaol ac anffafriol neu gwynion. Rydym yn lledaenu ymarfer effeithiol ac yn ceisio gwneud gwelliannau priodol pan fyddwn yn derbyn sylwadau anffafriol neu gwynion. Mae'r rhan fwyaf o'r sylwadau anffafriol yn ymwneud â methu â chael ateb wrth ffonio'r Llinell Gymorth. Mewn ymateb i hyn rydym wedi cyflwyno system atgyfeirio ar-lein er mwyn gwneud defnydd mwy effeithlon o amser a dreulir yn ymdrin â galwadau. Er hyn, mae'n rhaid i ni

gydnabod y gostyngiad sylweddol mewn cyllid ynghyd â'r cynnydd na welwyd ei debyg yn nifer y galwadau.

Eleni mae'r staff a'r gwirfoddolwyr wedi cyfrannu tuag at ddatblygu'r Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol ar gyfer plant a phobl ifanc a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae eiriolaeth wedi cael ei ddarparu i blant a phobl ifanc ledled Cymru, â gwasanaeth pwrpasol ym Mhowys a Cheredigion.

Derbyniwyd 8 cwyn eleni, sy'n 0.1% o'r holl achosion. Caiff pob cwyn ei harchwilio'n drwyadl a llunnir cynllun gweithredu i roi sylw i unrhyw faterion.

Mae ein safonau proffesiynol ein hunain wedi cael eu mireinio a'u gweithredu. Mae timau staff a gwirfoddolwyr wedi derbyn hyfforddiant a chymorth mentora yn ymwneud â chyfryngu a gwahardd o ysgolion yn ychwanegol at y rhaglen gynefino ffurfiol sy'n cynnwys deddfwriaeth, gwaith allweddol a diogelu. Mae'r timau wedi datblygu sgiliau goruchwylio, monitro, gwerthuso a rheoli prosiect. Darparwyd hyfforddiant i 394 o unigolion. Mae'r dysgu proffesiynol a phersonol a'r hyfforddiant wedi cael effaith gadarnhaol sylweddol ar bawb sydd wedi cymryd rhan, gan wella gwybodaeth a sgiliau.

2.10 Cysylltiadau â chyrff gwirfoddol eraill

Mae SNAP Cymru yn aelod o nifer o sefydliadau ymbarél trydydd sector gan gynnwys Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) a Chanolfannau Gwirfoddoli lleol, Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector (TSANA), y grŵp Awtistiaeth, y grŵp Eiriolaeth a'r grŵp Rhoddwyr Cyngor Trawsbleidiol. Rydym yn cefnogi sefydliadau eraill bach a mawr, er enghraifft Adoption UK, Cymorth Lleol yn Abertawe ac ADHD yng Nghaerdydd, â hyfforddiant a chynllunio busnes am ddim. Rydym yn rhoi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau asiantaethau cymunedol a gwirfoddol ar ein gwefan, ac mae aelodau o'n huwch dîm yn gweithredu fel aelodau o'r bwrdd gan rannu arbenigedd ag elusennau eraill. Rydym yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn digwyddiadau bord gron ac mae ein llinell gyngor ar agor i weithwyr proffesiynol ac ymarferwyr sydd ag ymholiadau yn ymwneud â materion addysg, anabledd a gwahaniaethu.

2.11 Cyllid a chynaliadwyedd

Fel y rhagwelwyd mae 2018-19 wedi dal i fod yn anodd i'r trydydd sector a sefydliadau sy'n cefnogi plant a theuluoedd yn gyffredinol. Oherwydd hyn rydym wedi lleihau nifer ein staff a'n gwariant. Mae llawer o'r cyfleoedd sy'n deillio o gyllid ESF wedi dod i ben a chan fod Brexit yn dal heb gael ei gwblhau mae ansicrwydd ynglŷn â'r dyfodol o hyd. Nid yw'r Trydydd Sector yn debygol o gael y cyfleoedd hyn yn ôl o gyllid y Llywodraeth yn y dyfodol gan fod toriadau mewn cyllid i wasanaethau cyhoeddus yn parhau.

Mae'r elusen yn dibynnu llawer ar gyllid allanol i gefnogi'r gweithgareddau pwysig iawn er mwyn cyflawni ein hamcanion elusennol. Mae cael cyllid sy'n canolbwyntio ar ein gweithgareddau wedi mynd yn fwy a mwy o her gan fod elusennau'n cystadlu am y pot cyllid llai sydd ar gael i'r trydydd sector drwy broses dendro cystadleuol. Gall y meini prawf ar gyfer ffynonellau cyllid newid ac ni ellir eu gwarantu. Mae SNAP Cymru wedi penderfynu defnyddio rhywfaint o'i arian wrth gefn heb gyfyngiadau i gefnogi contractau a phrosiectau. Gwnaethpwyd hyn er mwyn cadw presenoldeb SNAP Cymru mewn cyfnod yng Nghymru lle gwelwyd cynnydd yn yr angen am waith SNAP Cymru. Teimlwn nad yw'r strategaeth hon yn gynaliadwy ac yn y dyfodol bydd pob prosiect yn amodol ar fodel adennill costau llawn. Roedd SNAP Cymru yn ymwybodol o'r prinder cyllid a fyddai'n digwydd ac mae wedi wynebu'r dasg annymunol o geisio diwallu anghenion yr Elusen â llai o gyllid. Fodd bynnag, o ganlyniad i gydweithredu gwylaidd a phenderfynol rhwng yr elusen, ei gweithwyr a'i gwirfoddolwyr roeddem yn dal i allu dweud bod gennym warged gweithredu bach ar gyfer 2018/19. Roedd ymroddiad ein gweithwyr i gadw SNAP Cymru yn gyfle i ni gadw'n safle, drwy doriadau staff, lleihau oriau a rhannu swyddi. Heb eu haberth hwy a'r gefnogaeth barhaus gan wirfoddolwyr, byddai wedi bod yn anodd iawn i ni bontio'r bwlch rhwng cyllid ac angen. Fel arfer, ac yn enwedig eleni, rydym yn ddiolchgar i bawb.

Rydym yn dal i geisio sicrhau cynaliadwyedd rhoi cyngor annibynnol diduedd yng Nghymru drwy broses dendro cystadleuol a grantiau i ddarparu gwasanaethau er mwyn cyflawni ein hamcanion elusennol a chael effaith gadarnhaol ar blant a theuluoedd yng Nghymru.

Rydym wedi rhannu adnoddau newydd a darparu hyfforddiant i gefnogi cynhwysiant a chydraddoldeb ac i gynyddu ymwybyddiaeth o wahaniaethu. Mae timau o staff a gwirfoddolwyr sydd wedi'u hyfforddi yn ategu strategaeth y llywodraeth genedlaethol a lleol er mwyn helpu i gyflawni blaenoriaethau allweddol ar gyfer plant a theuluoedd yng Nghymru.

Rydym yn dal i chwilio am ffyrdd newydd o wella hygyrchedd i gymunedau anghysbell a grwpiau ac unigolion eraill sy'n anodd eu cyrraedd. Rydym yn ceisio cael rhagor o gyllid er mwyn darparu gwasanaethau sydd fawr eu hangen ar blant a theuluoedd tra rydym yn dal i ddatblygu ein gweledigaeth a'n cynaliadwyedd.

3. Manylion ein Gweithgareddau Ebrill 2018 - Mawrth 2019

Mae'r rhan hon yn cynnwys manylion am weithgareddau SNAP Cymru yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019.

3.1 Eiriolaeth

Mae'r cyngor a roddwn yn bodloni nod ansawdd y Gwasanaeth Cyfreithiol ar gyfer rhoi cyngor arbenigol mewn addysg ac mae ein gwasanaeth eiriolaeth 'Amdanaf Fi' ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion ychwanegol yn bodloni'r Fframwaith a Chanlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Eiriolaeth i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru. Rydym yn dal i weithio gyda'r Rhwydwaith Darparwyr Eiriolaeth i sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael mynediad at eiriolaeth yn ôl y galw. Rydym hefyd yn aelodau o'r gweithgor ar weithredu Deddf yr Iaith Gymraeg ac rydym yn rhannu ein profiad a'n harbenigedd sylweddol mewn anghenion dysgu ychwanegol, anghenion addysgol arbennig, anabledd, gwahardd a gwahaniaethu â chydweithwyr a ffurfwyr barn amlwg fel sail i ddeddfwriaeth a pholisi i weithredu newid.

3.2 Cyngor ar Wahaniaethu, Cymru

Ar hyn o bryd mae SNAP Cymru yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru gyda CAB a Shelter Cymru i ddarparu 'Cyngor ar Wahaniaethu ar sail Anabledd mewn Addysg' i blant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru. Mae SNAP Cymru wedi adrodd am 300 o achosion eleni, gan ddarparu astudiaethau achos a chanlyniadau i arianwyr fel sail i bolisi. Mae dros 100 o weithwyr proffesiynol wedi cael hyfforddiant gwahaniaethu ar sail anabledd eleni.

Mae SNAP Cymru wedi bod yn effeithiol iawn wrth ddatrys y materion drwy'r lefel isaf o ymyriadau, sef darparu gwybodaeth gywir a gwrthrychol yn gynnar a thrafod â phob parti.

Cyfanswm yr achosion yn ymwneud â gwahaniaethu ar sail anabledd	**456**
Nifer yr achosion yn ystyried hawliad o wahaniaethu ar sail anabledd mewn addysg	34 (7.5%)
Nifer yr achosion lle cyflwynwyd hawliad o wahaniaethu ar sail anabledd mewn addysg	12 (2.6%)
Nifer yr achosion a ddatryswyd drwy ddarparu gwybodaeth a/neu drafodaeth	443 (97%)
Nifer yr achosion a ddatryswyd drwy ddatrys anghytundeb yn anffurfiol	9 (1.9%)
Nifer yr achosion a ddatryswyd drwy ddatrys anghytundeb yn ffurfiol	4 (0.9%)

Gwelodd SNAP Cymru fod diffyg dealltwriaeth o Wahaniaethu ar sail Anabledd a dyletswyddau darparwyr yn y rhan fwyaf o'r achosion. Mae gwybodaeth a chyngor i bob partner wedi arwain at well ymarfer a dealltwriaeth. Llwyddwyd i ddatrys problemau ac anghytundeb ac osgoi gwrthdaro.

3.3 Teuluoedd yn Gyntaf

Eleni mae SNAP Cymru wedi rheoli prosiectau Teuluoedd yn Gyntaf yn Ynys Môn (Portage ar gyfer y blynyddoedd cynnar) ac Abertawe (plant a phobl ifanc ag anableddau a phontio). Mae'r teuluoedd a'r bobl ifanc sy'n derbyn gwasanaethau drwy'r prosiectau hyn yn cael cymorth gwaith allweddol dwys wedi'i deilwra gan staff a gwirfoddolwyr SNAP Cymru sy'n gweithio ar y cyd â Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd (JAFF) a Thîm o Amgylch y Teulu (TAF) a Thîm o Amgylch y Teulu (Anabledd) yr Awdurdodau Lleol. Byddai llawer o'r achosion wedi bod yn gysylltiedig â'r Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol cyn hyn. Buom yn cefnogi llawer o deuluoedd mewn argyfwng, gan weithio'n ddiflino i sicrhau eu bod yn cael canlyniadau cadarnhaol a gwell dealltwriaeth o'u sefyllfa, gan adeiladu ar strwythurau cefnogaeth, gwybodaeth a gwytnwch. Rydym yn gadael teuluoedd yn fwy abl, ac â'r hyder a'r wybodaeth i weithredu drostynt eu hunain a chyfeirio'u hunain yn ôl at SNAP Cymru pan mae angen.

3.4 Gwasanaethau Partneriaeth Rhieni a Chyfranogiad Disgyblion – Cefnogaeth Annibynnol i Rieni (IPS)

Mae SNAP Cymru wedi darparu gwasanaethau cefnogaeth annibynnol i rieni yn llwyddiannus ac yn effeithlon ledled Cymru. Yn 2018/19 cawsom gontract i ddarparu gwasanaethau cefnogaeth annibynnol i rieni wyneb yn wyneb mewn 19 Awdurdod Lleol yng Nghymru a Gwasanaethau Datrys Anghytundeb i 21 o Awdurdodau Lleol yn ôl y galw. Fe wnaethon ni hefyd ddarparu gwasanaeth cyngor drwy linell gymorth, a gwybodaeth drwy ebost, gwefan a phost. Darparwyd hyfforddiant ym mhob un o'r 22 awdurdod yng Nghymru. Mae SNAP Cymru yn aelod o Rwydwaith Gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chefnogaeth (NIASS) y DU, sy'n dal i ddarparu gwybodaeth ar gyfer ein datblygiad a'n hymarfer.

Mae staff a gwirfoddolwyr yn dal i rannu eu harbenigedd a mynegi llais teuluoedd mewn dros 300 o baneli Awdurdodau Lleol ac adolygiadau achosion. Rydym yn dal i edrych yn gadarnhaol ar y gwaith hwn ac yn gwerthfawrogi'r cyfle i weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr mewn Awdurdodau Lleol ac ysgolion gan ei fod yn darparu cyfleoedd i bob partner weld a deall problemau o safbwyntiau gwahanol ac yn annog cydberthnasau cadarnhaol.

The Queen's Diamond Jubilee Volunteering Award 2012
SQM
Helplines Partnership MEMBER
Investing in Volunteers
Agored Cymru
Llywodraeth Cymru Welsh Government

Rhannu arbenigedd a mynegi llais teuluoedd gydag Awdurdodau Lleol	
	Nifer
Cymryd rhan weithredol mewn trafodaethau AAA, paneli EOTAS a gwaith achos	**302**
Sesiynau ymgynghori, gwybodaeth a rhwydweithiau a hwyluswyd	**77**

3.5 Darparu gwybodaeth

Mae SNAP Cymru wedi darparu gwybodaeth ddiduedd, wrthrychol a chyfredol drwy blatfformau amrywiol, gan gynnwys dros y ffôn, drwy ebost, ein gwefan, Facebook a Twitter.

Cyfryngau digidol a chyfathrebu

Mae SNAP Cymru wedi datblygu ei bresenoldeb a'i weithgaredd cyfryngau digidol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth gywir, gyfredol a pherthnasol ar gael yn rhwydd. Mae'r defnydd o'n gwefan a'n cyfrif Facebook yn dal i gynyddu. Mae gennym wefan sy'n cael ei defnyddio'n aml ac rydym yn postio'n rheolaidd ar Facebook a Twitter.

Mae gennym blatfformau sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd ac offer fel Eventbrite a Mailchimp ar gyfer archebu tocynnau a chofrestru i fynd i ddigwyddiadau. Mae hyn yn symleiddio'n gwaith o gynllunio digwyddiadau a thudalennau digwyddiadau sydd mor hwylus ag sy'n bosibl i ddefnyddwyr ffonau symudol. Mae wedi'n helpu i dyfu ein digwyddiadau'n gyflymach gan ddefnyddio offer hyrwyddo digwyddiadau cynwysedig a rhannu drwy gyfryngau cymdeithasol. Daeth nifer dda ynghyd ar gyfer y 30 digwyddiad gwybodaeth trawsnewid ADY i rieni a gynhaliwyd ledled Cymru ar ran arweinwyr trawsnewid y Consortia gan eu bod wedi cael eu hysbysebu drwy'r platfformau hyn. Defnyddiasom y dull hwn yn llwyddiannus hefyd wrth weithio mewn partneriaeth â'r Comisiynydd Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru a chwmnïau cyfreithiol lleol i ddarparu digwyddiadau hyfforddiant gyda phresenoldeb uchel, ar Wahaniaethu mewn Addysg.

Gwefan

Mae ein gwefan ddwyieithog yn cynnig gwybodaeth, cyngor a chanllawiau am ddim yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r wybodaeth ar gael mewn nifer o ieithoedd eraill hefyd drwy Google Translate. Mae'r deunyddiau dwyieithog a gyhoeddir gennym ar gael i'w lawrlwytho . Derbyniwyd dros 91,000 o ymweliadau â thudalen www.snapcymru.org â 29,000 o ymwelwyr newydd yn ystod 2018/19 a 49,000 o sesiynau gweithgaredd ar y wefan. Mae'r wefan yn cynnwys nifer o adnoddau y gellir eu lawrlwytho, gan gynnwys llythyrau a

ffurflenni, newyddion, cyngor a gwybodaeth am ADY, calendr hyfforddiant a gwybodaeth gyffredinol am SNAP Cymru. Mae pobl hefyd yn defnyddio'r ffurflenni i gysylltu â ni i ofyn am gyngor am ADY yng Nghymru, atgyfeiriadau proffesiynol, gwybodaeth gyffredinol, ceisiadau i wneud gwaith gwirfoddol ac ymholiadau am hyfforddiant.

Facebook a Twitter

Roedd 4,689 o bobl wedi hoffi SNAP Cymru ar Facebook, ac mae ein 'Cyrhaeddiad', sef nifer yr unigolion a allai fod wedi gweld y cynnwys, ar hyn o bryd yn 336,000 o ddefnyddwyr unigryw ar gyfer 2018/19. Mae hyn yn cynnwys postiadau, cofrestriadau, hysbysebion, a gwybodaeth gymdeithasol gan bobl sy'n rhyngweithio â'n tudalen. Mae 4,519 o bobl yn dilyn SNAP Cymru ar Twitter. Cofnododd cyfrif Facebook SNAP Cymru 1,116,000 o 'Argraffiadau', sef cyfanswm y troeon y cafodd ein cynnwys ei arddangos i bobl. Cyrhaeddodd ein cynnwys rieni, ysgolion, Awdurdodau Lleol, gweithwyr proffesiynol, swyddfa'r Comisiynydd Plant, pobl ifanc, gwasanaethau gwybodaeth plant, Aelodau Cynulliad a sefydliadau eraill. Defnyddiodd pobl y 'negesydd' i gysylltu â ni i gael gwybodaeth am ADY, cyngor cyffredinol, gwybodaeth a rhannu gwybodaeth am newyddion a digwyddiadau yn ddyddiol.

Dewisodd Llyfrgell Genedlaethol Cymru www.snapcymru.org i fod yn rhan o Archif Gwe'r DU ac erbyn hyn mae'n rhan o'u casgliad parhaol. Mae ein gwefan bellach yn rhan bwysig o dreftadaeth ddogfennol Cymru a bydd yn dal ar gael i ymchwilwyr yn y dyfodol. Mae Archif Gwe'r DU yn bartneriaeth rhwng Llyfrgell Genedlaethol Cymru, y Llyfrgell Brydeinig, a Llyfrgell Genedlaethol yr Alban, i gadw gwefannau ar gyfer defnyddwyr y dyfodol.

3.6 Gwaith achos Ebrill 2018 - Mawrth 2019

Darperir gwaith achos fel rhan o'r contractau Cefnogaeth Annibynnol i Rieni, Cyngor ar Wahaniaethu, Cymru a Theuluoedd yn Gyntaf. Rydym wedi defnyddio model grymuso hyblyg ac effeithlon, gan chwilio am atebion a cheisio peidio â gwneud unrhyw gynnydd mewn gwrthdaro. Mae gwaith achos wedi amrywio o achosion syml un mater i achosion cymhleth yn cynnwys hyd at bedwar neu 5 mater a hyd at dair asiantaeth wahanol. Cyfeiriwyd gwaith achos mwy cymhleth at weithiwr achos arbenigol lleol SNAP Cymru. Cymerwyd rhwng 4 a 40 awr i gwblhau achosion.

Roedd cyfanswm yr achosion yr ymdriniwyd â hwy yn 2018/19 yn 5,263. O'r achosion hyn, ymdriniwyd â 64% drwy'r ganolfan gymorth, ac roedd angen gweithiwr achos arbenigol ar gyfer 36% ohonynt. Roedd 97% o'r teuluoedd a fu'n defnyddio'r gwasanaeth yn fodlon â'r gwasanaeth a ddarparwyd gan SNAP Cymru. Mae hyn yn dangos bod SNAP Cymru wedi llwyddo i weithredu ei fodel grymuso gan alluogi teuluoedd i gymryd y camau nesaf eu hunain yn hyderus. Dywedodd 88% o'r teuluoedd eu bod yn teimlo'n fwy hyderus i gysylltu'r â'r

The Queen's Diamond Jubilee Volunteering Award 2012
SQM
Helplines Partnership MEMBER
Investing in Volunteers
Agored Cymru
Llywodraeth Cymru Welsh Government

gweithwyr proffesiynol eu hunain.

Ar adeg cau'r achosion, dywedodd 90% o'r teuluoedd eu bod wedi cael mwy nag un canlyniad llwyddiannus. Bron yn ddieithriad, mae gan ddefnyddwyr ein gwasanaeth farn gadarnhaol ynglŷn â'r gwasanaeth a ddarperir gan SNAP Cymru. Ni ddywedodd unrhyw deulu ei fod yn anfodlon â'r gwasanaeth a dderbyniodd. Mae'r gweithwyr proffesiynol yn dweud eu bod yn fodlon â'r gwasanaeth, er bod yr adborth ffurfiol sydd wedi dod i law hyd yn hyn drwy arolygon a gwerthusiadau o achosion wedi bod yn gymharol isel.

Bu SNAP Cymru yn gweithio â 5,263 o achosion eleni. Roedd y rhan fwyaf o'r achosion a atgyfeiriwyd, 74%, yn dod oddi wrth rieni a gofalwyr. Roedd 23% o'r atgyfeiriadau yn rhai wedi'u gwneud yn uniongyrchol gan yr Awdurdod Lleol ac roedd 3% yn dod o'r trydydd sector.

Defnyddiodd 5,263 o deuluoedd a gweithwyr proffesiynol wybodaeth a chymorth o 8 swyddfa a 'Phwynt Gwybodaeth' yn ein siopau elusen, ysgolion a chymunedau ledled Cymru. Roedd Llinell Gymorth Genedlaethol yn cael ei gweithredu 5 diwrnod yr wythnos er mwyn gwella mynediad at wybodaeth, cyngor ac arweiniad i blant, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol. Fe wnaethom ymateb i 10,800 o alwadau ffôn yn gofyn am gyngor, a rhoddasom gyngor a chymorth ar gyfer 10,845 o broblemau. Er hyn, rydym yn ymwybodol bod 25% o alwadau'r Llinell Gymorth yn cael eu colli a bod llawer o geisiadau am gymorth wyneb yn wyneb mewn cyfarfodydd heb fod yn bosibl oherwydd materion capasiti sy'n deillio o ddiffyg cyllid.

Mae SNAP Cymru yn credu bod y cynnydd mewn hyder y cyfeiriodd teuluoedd ato yn deillio'n uniongyrchol o waith partneriaeth cadarnhaol rhwng y tîm gwaith achos a chydweithwyr yn yr Awdurdod Lleol sy'n rhannu gwybodaeth ac yn cyfeirio pobl at ein hadnoddau. Mae ein data yn dangos:

- ein bod wedi helpu teuluoedd i ddatrys 10,845 o faterion (problemau). Mae rhai o'r rhain wedi bod yn faterion cymhleth sy'n cymryd llawer o amser. Dywedodd nifer fawr o'r teuluoedd fod ganddynt fwy na dwy broblem ar adeg eu cysylltiad cyntaf.
- bod 72% o'r atgyfeiriadau a oedd yn ymwneud â phlant a phobl ifanc yn cynnwys diagnosis meddygol
- bod 65% o'r teuluoedd wedi cael gweithiwr achos. Mae'r ganran uchel hon yn arwydd o gymhlethdod y gwaith achos. Gofynnodd y teuluoedd am gymorth ar gyfer ystod o faterion cymhleth.
- bod 14% o'r teuluoedd wedi dychwelyd er mwyn cael rhagor o gymorth.

3.7 Apeliadau posibl i Dribiwnlys Addysg Cymru

Mae gwybodaeth, cyngor a chymorth, gan gynnwys ymyriadau cynnar gwaith

achos, wedi arwain at ddatrysiad llwyddiannus sy'n lleihau straen a gorbryder, yn cynyddu ymgysylltiad a chydgynhyrchu gyda gweithwyr proffesiynol ar gyfer darparu gwasanaeth yn y dyfodol. Codwyd y potensial ar gyfer apêl mewn dros 1,000 o faterion; lleihawyd y nifer hwn yn sylweddol gan ein tîm llinell gymorth i ddim ond 128 o deuluoedd, 2.4%, yn dal i ystyried apêl i Dribiwnlys Addysg Cymru. O'r 128 o deuluoedd a oedd yn cyfeirio at SNAP Cymru, cafodd 35 o deuluoedd eu cefnogi yn y cam datrysiad anffurfiol lle bu SNAP Cymru yn hwyluso trafodaeth rhwng y teulu a'r Awdurdod Lleol. Cafodd yr achosion hyn eu datrys heb fynd i'r Tribiwnlys, gan osgoi rhagor o wrthdaro a phoen meddwl i deuluoedd a diwallu anghenion y plentyn cyn gynted ag a oedd yn bosibl**.**

3.8 Datrys Anghytundeb yn Ffurfiol – Datrys

Mae nifer y materion a gyflwynwyd gan deuluoedd a allai fod wedi arwain at apeliadau wedi cynyddu'n sylweddol eleni. Mae Diwygio Addysg a gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) wedi peri pryder i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol, gan arwain at lefelau uchel o orbryder i deuluoedd sy'n poeni am ddarpariaeth addysg a gwasanaethau iechyd eu plant yn y dyfodol.

Mae SNAP Cymru wedi llwyddo i osgoi gwrthdaro drwy weithio gyda phob partner er mwyn datrys materion. Fe wnaeth ein gweithwyr achos arbenigol hwyluso 10 achos yn y cam Datrys Anghytundeb yn Ffurfiol, a chanlyniad hynny oedd bod 3 achos wedi cael eu tynnu'n ôl gan y teulu a bod Awdurdodau Lleol wedi syrthio ar eu bai mewn 7 achos. Cafodd 7 achos arall eu clywed mewn apêl. Roedd 62 o'r achosion a fu'n derbyn cymorth ar ryw adeg gan SNAP Cymru wedi cyflwyno apêl i Dribiwnlys Addysg Cymru. Mae hyn yn 1.2% o'r holl achosion. Roedd rhai o'r teuluoedd a aeth ymlaen i apêl wedi penodi cyfreithwyr, ac o ganlyniad, nid oeddent yn cael eu cefnogi mwyach gan SNAP Cymru. Bydd rhai hefyd wedi ymddieithrio oddi wrth SNAP Cymru a mynd yn eu blaenau heb ein cefnogaeth.

Mae ein timau rhanbarthol yn dal i ddatblygu arbenigedd mewn datrys gwrthdaro. Mae staff SNAP Cymru wedi cael eu hyfforddi i safon Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (CQFW), Lefel 4 mewn Cyfryngu i helpu i ddatrys anghydfod yn anffurfiol ac yn ffurfiol.

3.9 Dadansoddi data a gwaith achos

Mae dadansoddiad o ddata wedi bod ar gael er mwyn darparu gwybodaeth i bartneriaid a chomisiynwyr. Mae'r data yn cynnwys oed, ethnigrwydd, materion, incwm isel, trefniadau byw teuluoedd a'r mater ADY. Mae dadansoddi data ac adroddiadau datblygu lleol wedi darparu tystiolaeth ar gyfer yr angen parhaus am yr ystod o wasanaethau sy'n cael eu cynnig gan SNAP Cymru.

Roedd dadansoddiad o waith achos yn dangos bod angen dull cyfannol o ddiwallu anghenion plant a theuluoedd er mwyn gwella eu haddysg a'u cynhwysiant. Mae gweithio mewn partneriaethau amlasiantaethol ym mhob awdurdod lleol yn allweddol er mwyn darparu gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth effeithiol, priodol a gwrthrychol. Roedd y teuluoedd yn dod atom â nifer o faterion yr oedd angen rhoi sylw iddynt, gan gynnwys asesiadau ffurfiol o'r ddarpariaeth, lleoliadau ac iechyd; diagnosis, meddyginiaeth, seibiant, cymorth gofal cymdeithasol, mynediad at ddarpariaeth y tu allan i'r ysgol, cludiant ac addasiadau i dai. Roedd ar rai teuluoedd a phobl ifanc angen gwybodaeth gywir, cyngor diduedd a chael eu cyfeirio; roedd ar eraill angen cymorth parhaus mwy dwys a chael eu cyfeirio'n ffurfiol at asiantaethau eraill. Rhennir dadansoddiad llawn o'r data â llunwyr polisïau a rhai sy'n ffurfio barn er mwyn darparu gwybodaeth a gwella ymarfer ledled Cymru.

Achosion

Achosion Achos yw pan mae cyngor a chefnogaeth yn cael ei ddarparu yn ogystal â gwybodaeth a chyfeirio. Mae achosion yn amrywio o achosion syml un mater, i achosion mwy cymhleth yn cynnwys hyd at bedwar neu bum mater a hyd at dair gwahanol asiantaeth.	
Cyfanswm yr achosion yr ymdriniwyd â hwy	**5263**
Achosion yr ymdriniwyd â hwy drwy'r llinell gymorth a/neu ebost	3363
Achosion yr ymdriniwyd â hwy gan weithiwr achos arbenigol	1901
Achosion a gwblhawyd yn 2018/19	4784
Achosion a gariwyd drosodd i 2019/20	480
Nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n derbyn gofal a gefnogwyd	153

Ffynhonnell atgyfeiriadau ar gyfer gwaith achos

Ffynhonnell atgyfeiriadau

Mae atgyfeiriadau SNAP Cymru yn dod o bedair prif ffynhonnell. Mae'r rhan fwyaf o'r atgyfeiriadau'n dod oddi wrth rieni a gofalwyr. Mae llawer o'r rhain wedi cael eu cyfeirio at SNAP Cymru gan weithwyr proffesiynol ym maes iechyd, addysg a gofal cymdeithasol. Pan dderbynnir atgyfeiriad gan weithiwr proffesiynol neu o'r trydydd sector bydd SNAP Cymru yn gofyn am ganiatâd y rhiant neu'r gofalwr cyn darparu cefnogaeth.

	Rhiant / gofalwr	Plentyn neu berson ifanc	Gweithiwr proffesiynol	Trydydd sector
%	**80%**	**1%**	**17%**	**2%**

Materion neu broblemau

Materion a gofnodwyd o ffeiliau achosion

Mater yw'r broblem neu'r mater y rhoddir gwybod amdano gan y sawl sy'n gwneud yr atgyfeiriad. Nid yw'r mater yn aros yn ddigyfnewid, ac wrth i'r achos esblygu gall materion ychwanegol neu wahanol ddod i'r amlwg.

Nifer yr achosion	**5,263**	Cyfanswm y materion	**10,845**
Nifer cyfartalog y materion ym mhob achos			2

Y 10 mater a oedd yn codi amlaf

Materion sy'n codi'n aml Mater yw'r broblem neu'r pwnc. Daw'r data o'r mater y rhoddwyd gwybod amdano yn y lle cyntaf a mater neu faterion ychwanegol a allai godi yn ystod cyfnod yr ymyriad.
1. Darpariaeth addysg yn yr ysgol 2. Asesiad statudol 3. Mynediad at wasanaethau ym maes addysg 4. Lleoliad mewn ysgol 5. Gwybodaeth a chyngor am wahaniaethu 6. Methiant i gyfathrebu 7. Mynediad at wasanaethau: Iechyd 8. Gwaharddiadau: Amserlen lai 9. Pontio 10. Gwaharddiadau: Tymor penodedig

Angen y rhoddwyd gwybod amdano

Disgrifiad o'r angen Dyma brif angen y plentyn neu'r person ifanc fel y rhoddwyd gwybod amdano gan y teulu neu'r gweithiwr proffesiynol	
Meddygol	**2,558**
Anawsterau Cymdeithasol ac Emosiynol	**3,889**
Anawsterau Dysgu ac Anableddau	**2,492**
Cyfathrebu	**2,906**
Synhwyraidd	**1,520**

Gwerthusiad o'r achosion a gwblhawyd

Canran o'r teuluoedd a ddywedodd eu bod yn fodlon â'r gwasanaeth	97%
Canran o'r teuluoedd a ddywedodd eu bod wedi cael problemau wrth geisio defnyddio'r gwasanaeth a/neu eu bod yn anfodlon â'r gwasanaeth	3%
Canran o'r achosion lle cafodd plant a phobl ifanc eu cynorthwyo i gymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau	80%
Canran o'r achosion lle cofnodwyd barn a theimladau plant a phobl ifanc	90%
Canran o'r teuluoedd a ddywedodd eu bod wedi cynyddu eu gwybodaeth am weithdrefnau addysgol	89%
Canran o'r teuluoedd a ddywedodd bod ganddynt fwy o hyder i gysylltu â gweithwyr proffesiynol	88%
Canran o'r teuluoedd a ddywedodd eu bod yn teimlo eu bod yn fwy hyderus i siarad yn effeithiol ar ran eu plentyn	87%
Canran o'r teuluoedd a ddywedodd bod eu hiechyd a'u lles wedi gwella	85%
Cyfran o amser gwirfoddolwyr ar gyfer pob Swyddog Teuluoedd a Phobl Ifanc cyfwerth ag amser llawn	72%

3.9 Cydweithio: Polisi, Cynadleddau ac Ymgyngoriadau

Mae gwaith i ddylanwadu ar bolisi cenedlaethol a gwella gwasanaethau uniongyrchol wedi parhau drwy gydweithio â llawer o sefydliadau ac asiantaethau gan gynnwys y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC), Grwpiau Defnyddwyr, Tribiwnlys TAAAC, Pwyllgorau Cynghori Llywodraeth Cymru, Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS), Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Wasanaethau Golwg yn Llywodraeth Cymru, Grŵp Trawsbleidiol ar Awtistiaeth yng Nghymru, Gwasanaethau Cyfreithiol, Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, Plant yng Nghymru, Cydraddoldeb Hiliol, Cyngor Ffoaduriaid, Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth, Awtistiaeth Cymru, Anabledd Dysgu Cymru, Scope, Cymdeithas Plant Dewi Sant ar gyfer Mabwysiadu yng Nghymru, WCVA a chanolfannau gwirfoddoli lleol.

Cawsom ein comisiynu gan arweinwyr trawsnewid ADY Llywodraeth Cymru i hwyluso 30 o ddigwyddiadau gwybodaeth am ADY i rieni ledled Cymru. Daeth nifer dda ynghyd i'r sesiynau hyn a chawsom adborth cadarnhaol gan yr arweinwyr trawsnewid.

Er mwyn symud ymlaen mewn cysylltiad â hawliau plant a phobl ifanc i gynhwysiant, cyfranogiad ac eiriolaeth, mae SNAP Cymru wedi gwneud cyflwyniadau, llunio adroddiadau a chymryd rhan yn grwpiau polisi ac ymgyngoriadau Llywodraeth Cymru. Rydym wedi rhoi mewnbwn sylweddol i ddiwygio statudol tra'n dal i weithio ar y cyd â sefydliadau amlasiantaethol er mwyn gwella'r ffordd y mae gwasanaethau effeithiol yn cael eu datblygu a'u cyflwyno i ddiwallu anghenion a nodwyd ac anghenion a fydd yn dod i'r amlwg.

Mae ein Prif Weithredwr wedi ymgynghori ymhellach ag Awdurdodau Lleol ledled Cymru i drafod tueddiadau a materion yn ymwneud â phlant a theuluoedd a newidiadau deddfwriaethol newydd ac a fydd yn dod i'r amlwg. Cynhaliwyd deialog ac ymgyngoriadau parhaus â Llywodraeth Cymru, y Cynulliad Cenedlaethol ac eraill ynglŷn â diwygio statudol mewn Addysg, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r agenda dlodi. Rydym wedi darparu siaradwyr i'r Fforwm Polisi Cenedlaethol a Capita Conferences ar ystod o faterion polisi yn ymwneud â'r iaith Gymraeg, Addysg, Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

3.10 Addysg a Hyfforddiant

Mae canolfan hyfforddiant ac achrediad a gymeradwywyd SNAP Cymru wedi gweithio mewn partneriaeth ag AGORED Cymru i ddarparu ac achredu modiwlau pwrpasol a modiwlau wedi'u cymeradwyo o'r fframwaith AGORED. Caiff y Ganolfan ei harchwilio'n rheolaidd, ac mae wedi cael statws 'rhagorol'. Rydym

wedi gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i ddatblygu a hwyluso rhaglenni pwrpasol, wedi'u hachredu i Lefel 4 o Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (CQFW).

Mae gweithwyr proffesiynol o faes addysg, gwasanaethau ieuenctid a gofal cymdeithasol a phobl ifanc a theuluoedd wedi cael mynediad at ystod o sesiynau gwybodaeth a chyrsiau hyfforddiant. Mae'r cyrsiau wedi ymdrin ag anghenion cyfannol teuluoedd, gofynion cyfreithiol, hawliau a chyfrifoldebau, anghenion dysgu ychwanegol, gwahaniaethu ar sail anabledd, cydraddoldeb, cefnogaeth gynnar, partneriaeth, cyfranogiad, anableddau penodol, ymwybyddiaeth o anabledd, iaith arwyddion a chyfathrebu, chwarae cynhwysol, cyfrinachedd a GDPR.

Darparwyd hyfforddiant i 394 o gyfranogwyr. Mae'r dysgu a'r hyfforddiant proffesiynol a phersonol wedi cael effaith gadarnhaol sylweddol ar yr holl gyfranogwyr, gan wella gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth.

4. Cynlluniau ar gyfer y Dyfodol

Mae'r rhan hon yn cynnwys gwybodaeth am ddatblygiad arfaethedig SNAP Cymru dros y 3 blynedd nesaf.

Rydym yn dal i adolygu ein cynllun busnes strategol er mwyn ceisio cael incwm cynaliadwy ychwanegol i leihau'r risg o fod yn ddibynnol ar ffrydiau ariannu statudol. Byddwn yn gweithredu'r newidiadau sydd eu hangen er mwyn gwella a moderneiddio'n dulliau coladu a rhannu data i fod yn gydnaws â systemau adrodd am gontractau a ddefnyddir gan arianwyr a cheisio cael contractau tymor hwy i ddarparu ein gwasanaeth.

Bydd ein tîm o staff a gwirfoddolwyr yn dal i gefnogi ymgyrchoedd i godi arian ar gyfer gwasanaethau cynaliadwy i blant, pobl ifanc a theuluoedd yn y dyfodol fel y mae amser yn caniatáu. Cyflwynwyd ceisiadau sy'n cynnig cynigion i awdurdodau lleol ac ymddiriedolaethau i ddatblygu ein gwasanaethau cynhwysiant ledled Cymru ar gyfer gwasanaethau gwybodaeth, cyngor, gwaith achos, eiriolaeth, gwaith allweddol, cynhwysiant a gwahardd sy'n arwain at gynnydd uniongyrchol mewn cydgynhyrchu, a chyfranogiad, yn grymuso plant a theuluoedd ac yn lleihau anghytuno a gwrthdaro.

Mae ein cynlluniau'n cynnwys ystyried ein strategaeth gyfathrebu, gan edrych yn fwyaf arbennig ar ddatblygu gwefan SNAP Cymru. Mae Cymru'n gymdeithas ffonau clyfar erbyn hyn. Mae unigolion yn treulio dwy awr ar-lein ar ffonau clyfar bob diwrnod, ddwywaith cymaint ag ar liniaduron a chyfrifiaduron personol, a bydd angen i ni fod mor ymatebol a hawdd i'n defnyddio ar ffonau symudol ag sy'n bosibl.

Byddwn yn datblygu ein capasiti i ymateb i'r anghenion rydym wedi'u nodi drwy ddadansoddi'r data rydym wedi'u casglu yn ystod y 3 blynedd diwethaf. Mae hyn yn cynnwys yr angen am ymyriadau hirdymor lle mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn bresennol, ac yn fwyaf arbennig ar gyfer y 72% o'r plant sydd ag anghenion sy'n gysylltiedig ag iechyd.

Rydym wedi datblygu enw da i'n hunain ym maes ymgynghori a gwaith polisi, a byddwn yn parhau i ddatblygu'r enw da hwn. Byddwn yn gwneud hyn drwy farchnata ein harbenigedd ym meysydd partneriaethau teulu ac addysg, er mwyn bodloni'r gofynion a manteisio ar y cyfleoedd sy'n codi o ddiwygiadau statudol newydd a diwygiadau yn y dyfodol, sy'n effeithio ar blant, pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol a materion perthynol eraill yn eu teuluoedd sy'n effeithio ar eu siawns mewn bywyd.

Mae gwaith SNAP Cymru yn cael effaith gadarnhaol ar addysg pobl yng Nghymru, yn enwedig plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a'u

teuluoedd lle mae osgoi anghytuno a lleihau gorbryder a gwrthdaro'n helpu i wella iechyd a lles. Rydym yn gweithio er mwyn datblygu gwytnwch drwy ymgysylltu â theuluoedd a'u cynorthwyo i ganfod a threfnu gwasanaethau a chymorth. Mae SNAP Cymru yn frwdfrydig ynglŷn â'r iaith Gymraeg ac rydym yn cefnogi strategaeth yr iaith Gymraeg er mwyn sicrhau gwasanaethau dwyieithog i nifer cynyddol o siaradwyr Cymraeg.

Mae ymrwymiad hirdymor ein staff a'n gwirfoddolwyr a'r amser a'r profiad y maent wedi'i roi i'r sefydliad wedi'n helpu i oresgyn yr heriau rydym yn eu hwynebu wrth geisio cynnal a gwella ein hyfywedd. Fel yr unig elusen â sicrwydd ansawdd annibynnol ar gyfer Cymru gyfan sy'n cynnig cymorth arbenigol, annibynnol ag ystod o faterion addysgol rydym yn ceisio sicrhau y gallwn ddal i fodoli. Mae cyfathrebu da â'nsefydliad yn gyfan yn sicrhau y gallwn feddwl a gweithredu gyda'n gilydd i sicrhau cynaliadwyedd. Y staff a'r gwirfoddolwyr sy'n bennaf gyfrifol am wytnwch SNAP Cymru, ac maent yn caniatáu i'r Ymddiriedolwyr a'r Prif Weithredwr weithredu'n hyderus ac aildrefnu'n fuan yn dilyn digwyddiadau annisgwyl ac anawsterau yn ymwneud â chyllid a chapasiti i gwrdd â galw cynyddol am ein gwasanaethau.

Rhestr termau

AAA	Anghenion Addysgol Arbennig
ADHD	Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd
ADY	Anghenion Dysgu Ychwanegol
CAB	Cyngor ar Bopeth
CAFCASS	Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd
CQFW	Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru
DTAF	Tîm o Amgylch y Teulu (Anabledd)
EHRC	Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
ESF	Cronfa Gymdeithasol Ewrop
ETW	Tribiwnlys Addysg Cymru
GDPR	Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data
JAFF	Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd
NIASS	Rhwydwaith Gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chefnogaeth y DU
PC	Cyfrifiadur Personol
SQM	Nod Ansawdd Arbenigol yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
TAAAC	Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru
TAF	Tîm o Amgylch y Teulu
TG	Technoleg Gwybodaeth
TSANA	Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector
UNCRC	Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
WCVA	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru